Department for Work & Pensions

# Lwfans Rhiant Gweddw

**Mae gennym lawer o ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi**

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall ffoniwch ni ar **0800 328 1744** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pu'n sydd angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

**Trin pobl yn deg**

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I gael gwybod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Equality' yn **www.gov.uk**

## Cymorth i bartneriaid gweddw

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am wneud cais am Lwfans Rhiant Gweddw.

## Gwybodaeth bwysig

Mae Lwfans Rhiant Gweddw (WPA) yn incwm trethadwy, felly efallai y bydd angen i chi dalu treth ar unrhyw daliadau ac ôl-daliadau WPA a gewch. Os ydych yn Talu Wrth Ennill (PAYE), nid oes angen i chi wneud unrhyw beth, byddwn yn dweud wrth CThEF faint a gewch, gan gynnwys unrhyw ôl-daliadau.

Os ydych yn gwsmer Hunanasesu (SA), dylech naill ai ddatgan taliadau WPA ac ôl-daliadau WPA ar eich Ffurflenni Treth Hunanasesu (SATRs), ar gyfer pob blwyddyn dreth, neu ysgrifennu at CThEF i gynnwys yr ôl-daliadau WPA ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad. SATRs blaenorol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/self-assessment-tax-returns/corrections**

**BB2W** 11/22

# Beth yw Lwfans Rhiant Gweddw

Mae hwn yn fudd-dal sy'n seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) eich diweddar bartner. Mae eich partner yn golygu'r person yr oeddech yn byw gydag ef/hi, fel petaech yn briod, ar adeg eu marwolaeth.

## A allaf gael Lwfans Rhiant Gweddw?

Efallai y gallwch gael Lwfans Rhiant Gweddw os oedd eich partner diweddar wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Ni allwch gael Lwfans Rhiant Gweddw os, ar adeg marwolaeth eich diweddar bartner:
- nad oeddech yn byw gyda'ch gilydd mwyach, fel petaech yn briod,
- eich bod wedi priodi neu ffurfio partneriaeth sifil gyda pherson arall, neu
- roeddech yn byw gyda rhywun arall.

Bydd y cwestiynau canlynol yn eich helpu i ddarganfod a allech gael Lwfans Rhiant Gweddw.

**01** **A ydych neu a oedd gennych hawl i Fudd-dal Plant ar gyfer un o'ch plant neu un o blant eich diweddar bartner?**

☐ Na

☐ Ydw/Oeddwn

**02** **A ydych chi neu a oedd gennych hawl i Fudd-dal Plant, ond ddim yn ei gael oherwydd eich bod chi neu'ch diweddar bartner yn perthyn i'r grŵp tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel?**

☐ Na

☐ Ydw/Oeddwn

**03** **A oedd eich diweddar bartner yn cael Budd-dal Plant?**

☐ Na

☐ Oedd

**04** **Oeddech chi'n feichiog gan eich diweddar bartner neu drwy ddulliau artiffisial ar yr adeg y bu farw eich partner?**

☐ Na

☐ Oeddwn

**Efallai y gallwch gael Lwfans Rhiant Gweddw os:**
- rydych wedi ateb **Ydw/Oedd/Oeddwn** i o leiaf un o'r cwestiynau hyn, a
- roedd eich partner diweddar wedi talu digon o gyfraniadau YG.

Os oes gennych hawl i Lwfans Rhiant Gweddw, mae'r swm y gallwch ei gael yn seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol eich diweddar bartner.

Fel arfer gallwch gael Lwfans Rhiant Gweddw cyn belled â bod gennych hawl i Fudd-dal Plant neu roedd gennych hawl iddo. Os ydych yn perthyn i'r grŵp tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel neu'n perthyn i'r grŵp tâl Budd-dal Plant Incwm Uchel, ac nid ydych wedi gwneud cais am Fudd-dal Plant, mae'n rhaid i chi wneud hynny er mwyn i'ch cais am Lwfans Rhiant Gweddw gael ei ystyried. Cysylltwch â CThEF i wneud eich cais.

Os oedd eich partner diweddar yn hawlio Budd-dal Plant, ac nid ydych wedi gwneud cais i drosglwyddo'r Budd-dal Plant i'ch enw chi eto, rhaid i chi wneud hynny cyn y gellir ystyried eich cais am Lwfans Rhiant Gweddw. Cysylltwch â CThEF i wneud eich cais i drosglwyddo'r Budd-dal Plant i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Plant:
- ewch i **www.gov.uk/child-benefit/how-to-claim**
- ffoniwch Linell Gymorth CThEF ar **0300 200 1900**. Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw ac yn defnyddio ffôn testun, y rhif i'w ddefnyddio yw **18001 0300 200 3100.**

# Sut i wneud cais am Lwfans Rhiant Gweddw

Llenwch ffurflen gais **BB2W**. Dyma ragor o wybodaeth i'ch helpu i ateb rhai o'r cwestiynau ar y ffurflen.

Mae **cwestiwn 25** yn gofyn i chi am y plant yn eich cartref pan fu farw eich diweddar bartner. Os oedd mwy na 4 o blant, defnyddiwch y blwch 'Rhagor o wybodaeth' ar **dudalen 9** i roi manylion y plant eraill.

Mae **cwestiwn 27** yn gofyn a oeddech yn cynnal unrhyw blentyn neu blant a oedd wedi gadael eich cartref ar ôl i'ch diweddar bartner farw. Mae hyn yn golygu a wnaethoch ddarparu cymorth ariannol i'r person sy'n gofalu am y plentyn neu'r plant pan nad oedd yn eich cartref.

Mae **cwestiynau 32, 33** a **34** yn gofyn i chi am unrhyw berthnasoedd diweddarach sydd gennych ers i'ch partner farw.

Mae angen i ni wybod dyddiadau unrhyw berthnasoedd ac a oeddech yn briod, mewn partneriaeth sifil neu'n cyd-fyw â rhywun fel petaech yn briod. Dywedwch wrthym y dyddiad y dechreuodd eich perthynas, ac os yw wedi dod i ben, y dyddiad y daeth i ben ac a ydych yn dal mewn perthynas heddiw.

Os oes angen mwy o le arnoch i ddweud wrthym am eich perthnasoedd diweddarach, defnyddiwch y blwch rhagor o wybodaeth ar **dudalen 9** ffurflen **BB2W**.

Os cewch unrhyw anhawster i lenwi'r ffurflen gais hon, gall rhywun arall ei gwneud ar eich rhan. Gallwch ofyn i ffrind, perthynas neu ganolfan gynghori.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi'r Datganiad ar **dudalen 12** y ffurflen gais.

# Beth i'w wneud nesaf

Dylech anfon ffurflen gais **BB2W** atom cyn gynted â phosibl. Mae'r cyfeiriad i'w anfon ato ar ddiwedd y ffurflen.

# Cymorth a chyngor

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw ac yn defnyddio ffôn testun, ffoniwch **0800 731 0464**.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear neu ffonau symudol.

Efallai y bydd rhagor o gymorth a chefnogaeth ar gael gan eich Cyngor ar Bopeth lleol **www.citizensadvice.org.uk/cymraeg**

Mae Cruse Bereavement Care yn cynnig cymorth emosiynol i'r rhai sydd mewn profedigaeth. Gallwch gysylltu â nhw ar:

- Llinell gymorth **0808 808 1677** (rhif rhadffôn)
- E-bost **helpline@cruse.org.uk**
- Gwefan **www.cruse.org.uk**

Ni all y sefydliad hwn roi cyngor ar daliadau profedigaeth, budd-daliadau eraill na materion ariannol.

## Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a chynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Mae'n bosibl y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth a ddarperir gennych a gwella ein gwasanaethau. Mae'n bosibl y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

I gael rhagor o wybodaeth am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i **www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**